

HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU

NOTICE OF AMENDMENTS

Cyflwynwyd ar 5 Mai 2023
Tabled on 5 May 2023

Bil Amaethyddiaeth (Cymru) Agriculture (Wales) Bill

Mabon ap Gwynfor **39**

Section 1, page 2, line 5, after ‘operate’, insert ‘and their contribution to the local economy’.
Adran 1, tudalen 2, llinell 5, ar ôl ‘ynddynt’, mewnosoder ‘a’u cyfraniad i’r economi leol’.

Mabon ap Gwynfor **40**

Section 5, page 4, line 27, after ‘matters’, insert ‘(including, among other things, any statistics published by the Welsh Ministers on agricultural production or the income of agricultural businesses, deriving from surveys of the sector)’.

Adran 5, tudalen 4, llinell 29, ar ôl ‘eraill’, mewnosoder ‘(gan gynnwys, ymysg pethau eraill, unrhyw ystadegau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru ynghylch cynhyrchu amaethyddol neu incwm busnesau amaethyddol, sy’n deillio o arolygon o’r sector)’.

Mabon ap Gwynfor **41**

Section 7, page 6, line 10, after ‘matters’, insert ‘(including, among other things, any statistics published by the Welsh Ministers on agricultural production or the income of agricultural businesses, deriving from surveys of the sector)’.

Adran 7, tudalen 6, llinell 12, ar ôl ‘eraill’, mewnosoder ‘(gan gynnwys, ymysg pethau eraill, unrhyw ystadegau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru ynghylch cynhyrchu amaethyddol neu incwm busnesau amaethyddol, sy’n deillio o arolygon o’r sector)’.

Mabon ap Gwynfor

42

Page 8, after line 5, insert a new section –

[] Multi-annual support plans

- (1) The Welsh Ministers must prepare a plan, to be known as a “multi-annual support plan”, giving information about the expected use of the powers conferred on the Welsh Ministers by section 8 during the period to which the plan applies.
- (2) A multi-annual support plan must –
 - (a) specify the period in relation to which it applies;
 - (b) set out how the Welsh Ministers intend to provide support during the period so as to best contribute to achieving the sustainable land management objectives (in accordance with section 2);
 - (c) where support is intended to be provided during the period under a scheme as mentioned in section 8(3), describe each scheme that –
 - (i) is in operation, or
 - (ii) the Welsh Ministers expect to come into operation during the period;
 - (d) describe any support intended to be provided during the period other than under a scheme as mentioned in section 8(3).
- (3) The period in relation to which the first plan is to apply is the period of five years beginning with 1 January 2025.
- (4) The period in relation to which subsequent plans are to apply may not be shorter than five years.
- (5) The Welsh Ministers must ensure that a plan does not expire without a new plan being in place.
- (6) A plan prepared under this section must be laid before Senedd Cymru, and published, by the Welsh Ministers –
 - (a) in the case of the first plan, as soon as reasonably practicable before the beginning of the period in relation to which it applies, and
 - (b) in the case of each subsequent plan, at least 12 months before the beginning of the period in relation to which it applies.
- (7) If, before the end of the period in relation to which a plan applies, any information set out or described in the plan in accordance with paragraphs (b), (c) or (d) of subsection (2) ceases to be accurate or complete, the Welsh Ministers must amend the plan as soon as is practicable to do so.
- (8) Where the Welsh Ministers amend the plan, they must as soon as reasonably practicable –
 - (a) publish the revised plan, and
 - (b) lay it before Senedd Cymru.’.

Tudalen 8, ar ôl llinell 6, mewnosoder adran newydd –

[] Cynlluniau cymorth amlflwydd

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru lunio cynllun, a elwir yn “cynllun cymorth amlflwydd”, sy’n rhoi gwybodaeth ynghylch y defnydd y disgwylir ei wneud o’r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan adran 8 yn ystod y cyfnod y mae’r cynllun yn gymwys iddo.
- (2) Rhaid i gynllun cymorth amlflwydd –
 - (a) pennu’r cyfnod y mae’n gymwys mewn perthynas ag ef;
 - (b) nodi sut y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu darparu cymorth yn ystod y cyfnod er mwyn cyfrannu orau at gyflawni’r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy (yn unol ag adran 2);
 - (c) pan fwriedir darparu cymorth yn ystod y cyfnod o dan gynllun fel a grybwyllir yn adran 8(3), disgrifio pob cynllun –
 - (i) sy’n weithredol, neu
 - (ii) y mae Gweinidogion Cymru yn disgwyl y bydd yn dod yn weithredol yn ystod y cyfnod;
 - (d) disgrifio unrhyw gymorth y bwriedir iddo gael ei ddarparu yn ystod y cyfnod ac eithrio o dan gynllun fel a grybwyllir yn adran 8(3).
- (3) Y cyfnod y bydd y cynllun cyntaf yn gymwys mewn perthynas ag ef yw’r cyfnod o bum mlynedd sy’n dechrau â 1 Ionawr 2025.
- (4) Ni chaiff y cyfnod y bydd cynlluniau dilynol yn gymwys mewn perthynas ag ef fod yn fyrrach na phum mlynedd.
- (5) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau nad yw cynllun yn dod i ben heb i gynllun newydd fod yn ei le.
- (6) Rhaid i gynllun sy’n cael ei lunio o dan yr adran hon gael ei osod gerbron Senedd Cymru, a’i gyhoeddi, gan Weinidogion Cymru –
 - (a) yn achos y cynllun cyntaf, cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol cyn dechrau’r cyfnod y mae’n gymwys mewn perthynas ag ef, a
 - (b) yn achos pob cynllun dilynol, o leiaf 12 mis cyn dechrau’r cyfnod y mae’n gymwys mewn perthynas ag ef.
- (7) Os yw, cyn diwedd y cyfnod y mae cynllun yn gymwys mewn perthynas ag ef, unrhyw wybodaeth a nodir neu a ddisgrifir yn y cynllun yn unol â pharagraffau (b), (c) neu (d) o is-adran (2) yn peidio â bod yn gywir neu’n gyflawn, rhaid i Weinidogion Cymru ddiwygio’r cynllun cyn gynted ag y bo’n ymarferol gwneud hynny.
- (8) Pan fo Gweinidogion Cymru yn diwygio’r cynllun, rhaid iddynt cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol –
 - (a) cyhoeddi’r cynllun diwygiedig, a
 - (b) ei osod gerbron Senedd Cymru.’.

Samuel Kurtz

43

Section 42, page 32, line 1, leave out ‘including’ and insert ‘excluding’.

Adran 42, tudalen 32, llinell 1, hepgorer ‘gan gynnwys’ a mewnosoder ‘ac eithrio’.

Samuel Kurtz 44

Section 43, page 32, line 13, after ‘restraint’, insert ‘(except those licensed for use by section 16(3C))’.
Adran 43, tudalen 32, llinell 15, ar ôl ‘restraint’, mewnosoder ‘(except those licensed for use by section 16(3C))’.

Samuel Kurtz 45

Section 43, page 32, line 17, after ‘restraint’, insert ‘(except those licensed for use by section 16(3C))’.
Adran 43, tudalen 32, llinell 19, ar ôl ‘restraint’, mewnosoder ‘(except those licensed for use by section 16(3C))’.

Samuel Kurtz 46

Page 32, after line 27, insert a new section –

[] Licensed use of humane cable restraints

In section 16 of the Wildlife and Countryside Act 1981 (c.69) (power to grant licences), after subsection (3B) insert –

“(3C) Section 11(1)(ba) and (bb) do not apply to the use of a humane cable restraint for the purposes of –

- (a) conserving wild animals or wild plants or introducing them to particular areas;
- (b) the re-population of an area with, or the re-introduction into an area of, wild birds, including any breeding necessary for those purposes, if used under and in accordance with the terms of a licence granted by the appropriate authority.

(3D) The Welsh Ministers may by regulations make provision about licences under subsection (3C).

(3E) For the purposes of subsection (3C), “humane cable restraint” means a restraint of a description included in regulations made by the Welsh Ministers.

(3F) The regulations under (3E) must be made within one year of the Agriculture (Wales) Act 2023 receiving Royal Assent.”.

Tudalen 32, ar ôl llinell 29, mewnosoder adran newydd –

[] Defnydd trwyddedig o atalyddion cebl heb greulondeb

Yn adran 16 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (p.69) (pŵer i roi trwyddedau), ar ôl is-adran (3B) mewnosoder –

“(3C) Section 11(1)(ba) and (bb) do not apply to the use of a humane cable restraint for the purposes of –

- (a) conserving wild animals or wild plants or introducing them to particular areas;

(b) the re-population of an area with, or the re-introduction into an area of, wild birds, including any breeding necessary for those purposes,

if used under and in accordance with the terms of a licence granted by the appropriate authority.

(3D) The Welsh Ministers may by regulations make provision about licences under subsection (3C).

(3E) For the purposes of subsection (3C), “humane cable restraint” means a restraint of a description included in regulations made by the Welsh Ministers.

(3F) The regulations under (3E) must be made within one year of the Agriculture (Wales) Act 2023 receiving Royal Assent.”.

